YN Y DU MAE 57 O RYWOGAETHAU O

# LÖYNNOD BYW

Dyma rai y gallech chi eu gweld ar eich antur #30DaysWild

### OEDDECH CHI'N GWYBOD

Mae llawer o löynnod byw yn 'blasu' gyda'u traed wrth ddod o hyd i lecyn perffaith i ddodwy eu hwyau – i wneud yn siŵr y bydd yn cynnig byrbryd blasus i'w lindys.

## GERDDI

Mae glöynnod byw wrth eu bodd mewn gerddi llawn blodau ac ardaloedd glaswelltog! Mae llawer yn hoffi danadl hefyd, i ddodwy eu hwyau, felly ceisiwch gadw darn o'ch gardd yn flêr.


CWYN MAWR
@MEGHAN LOWE


MANTELL PAUN
@VAUGHN MATTHEWS


GLESYN Y CELYN
@JIM HIGHAM

## TEITHIAU CERDDED COETIR

Mae llawer o löynnod byw yn gwneud eu cartref yn ein coedwigoedd ni, gyda rhai'n dewis byw reit ar frig canopi'r coed.


MELYN Y RHAFNWYDD
@AMY LEWIS


GWEIRLÖYN BRYCH
@NEIL ALDRIDGE


MANTELL WEN

## CRWYDRO CEFN GWLAD

Dolydd, gwrychoedd ac ardaloedd glaswelltog, mae glöynnod byw wrth eu bodd gyda nhw i gyd!


CWYN BLAEN OREN
@JON HAWKINS


CWIBIWR MAWR
@ADAM JONES


GLESYN CYFFREDIN
@ZSUZSANNA BIRD

### Sut gallwn ni helpu glöynnod byw?

Os oes gennych chi ardd fawr neu focs ffenestr, fe allwch dyfu planhigion sy'n gyfeillgar i löynnod byw (a'u lindys!) fel coed mêl, lafant a phenrhudd. Rhowch gynnig ar dyfu planhigion ar gyfer gwahanol dymhorau, fel bod eich darn chi o dir yn darparu bwyd a chysgod i'r glöynnod byw cyntaf sy'n dod allan yn y gwanwyn a'r glöynnod byw olaf sy'n dal i herio'r tywydd tua dechrau'r gaeaf. Os oes gennych chi unrhyw goed ffrwythau, gadewch y ffrwythau sydd wedi cwympo ar gyfer glöynnod byw llwglyd. Ceisiwch osgoi defnyddio plaladdwyr ar eich planhigion hefyd.


### Sut mae glöynnod byw yn ein helpu ni?

Yn ogystal â bod yn olygfa hyfryd ar ddiwrnod o haf, wrth hedfan o blanhigyn i blanhigyn yn chwilio am neithdar blasus, mae glöynnod byw hefyd yn bryfed peillio gwych.

Mae glöynnod byw yn rhan bwysig o'r gadwyn fwyd. Maen nhw, eu hwyau, eu lindys a'u chwiler yn cael eu bwyta gan adar, pryfed eraill a mamaliaid.

Maen nhw hefyd yn rhywogaeth ddangosol, sy'n golygu y gall eu niferoedd dros amser ein helpu ni i ddeall pa mor iach yw'r amgylchedd.

# Adnabod Glöynnod Byw

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| Mantell Paun | Gwyn Mawr | Glesyn y Celyn | Melyn y Rhafnwydd | Gweirlöyn Brych |
|  |  |  |  |  |
| Mantell Wen | Gwyn Blaen Oren | Gwibiwr Mawr | Glesyn Cyffredin | Argws Brown |

Credits: Janet Packham, Megan Lowe, Amy Lewis, Vaugh Matthews, Paul Lane, Tom Hibbert, Don Sutherland